

FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion

[Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) er mwyn cydymffurfio â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Cam 1 – Casglu Gwybodaeth

NODER: Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler [Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg](#) i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data.

Enw'r Cynnig:	YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I AD-DREFNU DARPARIAETH DOSBARTHIAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF
Adran	Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant
Cyfarwyddwr Gwasanaeth	Gaynor Davies
Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Lisa Carter
E-bost	Lisa.c.carter@rctcbc.gov.uk
Ffôn	01443 744344
Disgrifiad Cryno	<p>Adlinio'r ddarpariaeth bresennol i fodloni'r galw am leoliadau arbenigol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r addasiadau canlynol i'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o Ebrill 2024.• Trosglwyddo'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 3-6 ag Anhwyllder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.

	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyrraeth yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2024. • Sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2024. • Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7–11 ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd yn yr ysgol 3-16 newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen o fis Medi 2024.
Dyddiad	16 Mawrth 2023, diweddarwyd ar 6 Medi 2023
Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)	Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol, eu rhieni / gwarcheidwaid a'r gymuned anghenion dysgu ychwanegol ehangach.

Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?	Nod y cynigion yma yw adlinio'r ddarpariaeth ADY bresennol i fodloni'r galw am leoliadau arbenigol. Ar hyn o bryd, mae disgyblion sydd ag ADY sylweddol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi gan garfan beripatetig arbenigol, trwy fodel cymorth cyflenwi cynhwysol. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ddatblygu darpariaeth ADY ddwyieithog. Bydd sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn sicrhau bod cymorth Cymraeg ar gael i ddisgyblion ag ADY sy'n bodloni meini prawf y Dosbarth Cynnal Dysgu. Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn rhoi cymorth i 18 o ddisgyblion sydd ag ADY sylweddol.
Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.	<ul style="list-style-type: none"> • Disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. • Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar sy'n iau na'r oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol. • Blwyddyn 7-11 (Cyfnod Allweddol 3/4 yn flaenorol). Disgyblion cyfrwng Saesneg ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd. • Disgyblion yn yr ysgol lle mae'r dosbarth wedi'i sefydlu.

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhieni/gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a'r rheini sydd â phlant/pobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. • Staff mewn ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. • Dyma'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu: Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, Ysgol Gynradd Perthcelyn, yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Rhydfelen, yr ysgol 3-16 newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen. 												
<p>Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw</p>	<p>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data LSOA), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.</p> <p>Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r rhain yn deillio o Gyfrifiad 2021.</p> <p style="text-align: center;">Tabl 1: Sgiliau Cymraeg Trigolion – (Cyfrifiad 2021) – (%)</p> <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th></th> <th style="text-align: center;">Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf</th> <th style="text-align: center;">Sirol Cymru Gyfan</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</td> <td style="text-align: center;">10.1%</td> <td style="text-align: center;">14.8%</td> </tr> <tr> <td>Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu</td> <td style="text-align: center;">0.7%</td> <td style="text-align: center;">1.2%</td> </tr> <tr> <td>Yn gallu siarad Cymraeg ond yn</td> <td style="text-align: center;">1.4%</td> <td style="text-align: center;">2.4%</td> </tr> </tbody> </table>		Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	Sirol Cymru Gyfan	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	10.1%	14.8%	Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu	0.7%	1.2%	Yn gallu siarad Cymraeg ond yn	1.4%	2.4%
	Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	Sirol Cymru Gyfan											
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	10.1%	14.8%											
Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu	0.7%	1.2%											
Yn gallu siarad Cymraeg ond yn	1.4%	2.4%											

methu â'i darllen na'i hysgrifennu		
Yn gallu darllen ond methu siarad nac ysgrifennu Cymraeg	1.6%	1.4%
Yn gallu ysgrifennu ond methu siarad na darllen Cymraeg	0.2%	0.2%
Yn gallu darllen ac ysgrifennu ond methu siarad Cymraeg	0.5%	0.6%
Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	4.0%	5.5%
Cyfuniad Arall o Sgiliau	0.1%	0.2%
Dim sgiliau	81.3%	77.1%
Cyfanswm	100%	100%

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r rheiny sy'n ymateb i siarad Cymraeg ac yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Mae'n cael ei ddiweddarau bob chwarter, felly mae'n ffynhonnell fwy cyfredol na'r Cyfrifiad. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, fod 20.2% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, mae hyn o'i gymharu â chanran Cymru gyfan o 29.7% o ymatebwyr. Mae modd dadansoddi hyn ymhellach trwy'r data yn y tabl isod.

Tabl 2: Sgiliau Cymraeg Trigolion (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)		
	Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	Sirol Cymru
Yn gallu darllen Cymraeg	18.8%	26.0%

Yn gallu ysgrifennu Cymraeg	17.2%	23.9%
Yn gallu deall Cymraeg ar lafar	23.0%	33.5%

Mae'r data'n dangos bod canrannau Cymru gyfan ym mhob maes sgiliau'r Gymraeg yn sylweddol uwch na chanrannau'r Fwrdeistref Sirol.

Wrth eu holi am ba mor aml yr oedden nhw'n siarad Cymraeg, mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o ymatebion y rheiny a ymatebodd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'u cymharu ag ymatebion Cymru gyfan.

Tabl 3: Sgiliau Cymraeg Trigolion (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)		
	Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	Sirol Cymru
Yn siarad Cymraeg bob dydd	7.4%	15.0%
Yn siarad Cymraeg bob wythnos	5.1%	5.8%
Ddim yn defnyddio'r Gymraeg yn aml neu byth yn defnyddio'r Gymraeg	5.2%	8.9%

Mae'r data'n dangos bod canran y rheiny a ymatebodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn llawer is ar gyfer y Fwrdeistref Sirol na chanran Cymru gyfan.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith ar gyfer 2013 i 2015 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ruglder siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych lle dysgodd y rheiny a ymatebodd sy'n byw yng Nghymru siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif, sef 45%, siarad Cymraeg gartref. Dysgodd 26% siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd rhwng 2 a 10 oed a dysgodd 14% siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn 11 oed a hŷn. Dysgodd y 2.0% arall siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ar gyrsiau 'Cymraeg i Oedolion'.

Mae'r data uchod yn dangos yn glir bod bwlch yn sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf o gymharu â Chymru gyfan. Mae cynigion fel hyn yn gwella'n sylweddol y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg ag ADY trwy ddarparu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg arbenigol wedi'i thargedu ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol mewn amgylchedd Ysgol y 21^{ain} Ganrif. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i'r gymuned gael cyfathrebu yn Gymraeg. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn gwbl hygyrch a bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd hyn ei wneud trwy'r Siarter Iaith Cyngor Gwynedd (Cymraeg Campus), ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (y Consortiwm) a'r Urdd i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol. O ran yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig yma -

- Mae Ysgol Gynradd Perthcelyn wedi derbyn eu gwobrau Campws Cymraeg efydd ac arian ac yn gweithio tuag at ennill y wobr aur.
- Mae Ysgol Gynradd Abercynon wedi ymgysylltu â darpariaeth Campws Cymraeg ac yn gweithio gyda'r Consortiwm i gyflawni eu gwobr efydd.
- Mae Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen wedi derbyn eu gwobr Campws Cymraeg efydd a nawr yn gweithio tuag at ennill y wobr arian ac mae Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen wedi ymgysylltu â'r rhaglen ac yn gweithio tuag at ennill y wobr efydd.

Roedd gwerthusiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 wrth gasglu gwybodaeth a data ar gyfer Adroddiad Adolygiad Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae rhaglen Campws Cymraeg y Siarter Iaith Gymraeg wedi'i chael ar y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cysylltwyd â 13 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o wahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol a soniodd pob un ohonyn nhw am gynnydd yn y defnydd o Gymraeg achlysurol drwy'r ysgol gyda mwy o blant yn chwarae gemau ar y maes chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a rhagor o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda ffocws ar yr iaith Gymraeg, hanes a threftadaeth. Mae rhaglen Campws Cymraeg y Siarter Iaith Gymraeg wedi'i chyflwyno i bob ysgol ac uned arbennig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae llawer eisoes wedi dechrau ar eu taith i dderbyn y gwobrau. Bydd cyflwyno'r rhaglen yma'n barhaus yn cefnogi targed

Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor (2022 i 2032).

Data neu ymchwil perthnasol arall

Ar ôl adolygu data mewnol, nodwyd oherwydd diffyg darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg bod 7% o gyfanswm y disgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol wedi mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenorol.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o CYBLD 2023 yn dangos bod 1,926 (6.28%) o ddisgyblion ag ADY yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd a bod 256 (3.58%) o ddisgyblion ag ADY yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Wrth gymharu hyn â data sydd ar gael gan CYBLD ar gyfer y flwyddyn flaenorol, mae nifer y disgyblion ag ADY mewn ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu, gweler y tabl isod.

Tabl 4: Disgyblion ag ADY sy'n mynychu ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol (CYBLD)

Nifer a Chanran y Disgyblion ag ADY sy'n Mynychu Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf				
Blwyddyn Academaidd	2021 – 2022		2022 – 2023	
	Nifer	%	Nifer	%
Addysg Cyfrwng Saesneg	1,508	4.87%	1,926	6.28%
Addysg Cyfrwng Cymraeg	200	2.77%	256	3.58%

Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor ac er mwyn cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, byddwn ni'n parhau i sicrhau bod buddiannau'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni/gwarcheidwaid o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol hyd at addysg gynradd ac uwchradd, ac ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach i bob disgybl, beth bynnag fo'u hanghenion dysgu. Yn unol â deilliant 6 yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY (yn unol â'r dyletswyddau wedi'u pennu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

Bydd datblygiad parhaus darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn rhan o brosesau cynllunio gweithredu, monitro, gwerthuso ac adolygu Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod digonolrwydd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod trefniadau digonol i ddiwallu anghenion disgyblion ac i nodi unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg neu fylchau yn y ddarpariaeth.

Mae adran 63 o Ddeddf Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (2018) yn tynnu sylw at ddyletswydd awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau y maen nhw a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn eu hardal yn eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifainc ag ADY. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau'n ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifainc y maen nhw'n gyfrifol amdany'n nhw. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gellir yn rhesymol ei threfnu gan gyrrff eraill (megis cyrrff iechyd). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg a maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. Os yw awdurdod lleol o'r farn nad yw'r trefniadau'n ddigonol mewn unrhyw ffordd, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol, yn eu barn nhw, er mwyn llywio'r ystyriaeth a'r adolygiad, ac ar adegau sy'n briodol yn eu barn nhw.

Cam 2 – Asesu Effaith

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith	Cadarnhaol	Y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yma yw adleoli, trosglwyddo a sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg mewn gwahanol leoliadau ledled y Fwrdeistref Sirol lle mae angen a galw a nodwyd am ddarpariaeth arbenigol na ddylai gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae'r cynigion i adleoli a throsglwyddo	Mae data a gasglwyd gan y garfan Cynhwysiant a Mynediad yn dangos bod 7% o gyfanswm nifer y disgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol wedi mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenorol, a bellach yn defnyddio darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg oherwydd	<ul style="list-style-type: none">• Bydd effaith sefydlu'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn cael ei werthuso a'r galw yn cael ei fonitro i sicrhau bod agor y dosbarthiadau yma'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

		<p>Dosbarthiadau Cynnal Dysgu rhwng Ysgol Gynradd Perthcelyn ac Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon yn cael eu cynnig er mwyn gwella continwmm y ddarpariaeth ADY yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol trwy greu darpariaeth drwodd yn y cyfnod cynradd. Mae sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyrraeth Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Abercynon yn cefnogi gobeithion y Cyngor ymhellach i wella continwmm darpariaeth ADY yn ardal yma'r Fwrdeistref Sirol lle mae angen wedi'i nodi. Ni ddylai sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd ym Mlwyddyn 7–11 yn yr ysgol 3-16 newydd sy'n cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen gael effaith negyddol ar y Gymraeg gan mai darpariaeth arbenigol fydd hon. Bydd sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn trawsnewid y cyfleoedd cyfrwng</p>	<p>diffyg darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.</p> <p>Nododd Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (2013 – 2015) fod dros hanner yr ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg a gwblhaodd yr arolwg yn dweud eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle gyda chydweithwyr ac wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod staff, trigolion ac ymwelwyr yn cael mynediad teg at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, rhaid i unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor fod yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Mae'r Cyngor hefyd yn cymhwyso hyn i unrhyw adeiladau ysgol</p>	<p>Os yw'n gadarnhaol, bydd cyfleoedd i ddatblygu rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu fel hyn ar draws y Fwrdeistref Sirol yn cael eu hystyried. Mae sicrhau cynhwysiant gyda disgyblion prif ffrwd yn egwyddor allweddol i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael cyfle cyfartal i ddysgu'r iaith a derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phrifathro ysgol Gymraeg newydd Rhydfelen a Sefydliadau cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r cyfleusterau i gyflwyno sesiynau dysgu Cymraeg i rieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach. • Os nad yw person yn gallu siarad Cymraeg, rhaid iddo alw ar gydweithiwr yn yr adeilad sy'n gallu siarad
--	--	---	---	--

		<p>Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY sylweddol yn ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol gan mai dyma'r cyntaf o'i fath yn y Fwrdeistref Sirol, ac felly ni all ond gael effaith gadarnhaol ar yr iaith. Ochr yn ochr â hyn, bydd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg sydd newydd ei sefydlu yn Ysgol Garth Olwg ar gael i ddisgyblion oed uwchradd o fis Medi 2023, gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg a pharhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yma'r Fwrdeistref Sirol. Ni all sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahanol gyfnodau addysg ond cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Bydd darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg a'r galw am y math yma o ddarpariaeth yn cael eu gwerthuso a'u monitro'n agos. Os bernir ei fod yn llwyddiannus, bydd Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn archwilio opsiynau i ddatblygu darpariaeth bellach fel yr un yma mewn gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol.</p>	<p>newydd fel bod arwyddion mewn ysgolion Saesneg yn ddwyieithog. Mae adeiladau ysgol newydd bellach hefyd yn cynnwys braille dwyieithog ar arwyddion ar draws yr ysgol.</p>	<p>Cymraeg, os gofynnir am hynny.</p>
--	--	--	--	---------------------------------------

Bydd y cynnig i greu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Dyma fydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyntaf o'i fath yn y Fwrdeistref Sirol a bydd yn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY i ddysgu'r Gymraeg. Bydd modd i ddisgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gael mynediad at ystod o weithgareddau allgyrsiol ychwanegol yn unol â'u cyfoedion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Anogir cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol a thrydydd parti o gyfleusterau'r ysgol i gynnig dosbarthiadau dysgu Cymraeg i oedolion, a fydd yn cael eu hyrwyddo yn y gymuned leol a ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Nododd Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (2013 – 2015) y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru yn Rhondda Cynon Taf ac yn ein hawdurdod cyfagos yng Nghaerdydd. Trwy weithio gyda phennaeth yr ysgol arbennig newydd arfaethedig, bydd cyfleoedd i'r gymuned a thrydydd partïon ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol i gynnig dosbarthiadau dysgu Cymraeg i oedolion, a fydd yn cael eu hyrwyddo yn y gymuned leol a ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio i ddatblygu cymorth

		<p>technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ofynnol i holl aelodau staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 1. Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.</p>		
--	--	--	--	--

Cam 2 – Aesu Effaith

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
<p>Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth Pum</p>	Cadarnhaol	Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed	Mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 yn cael eu cynnal ar gampws Coleg y Cymoedd Llwynypia, Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg a Llyfrgell Treorci. Trwy	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd

Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Bydd pennaeth yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn cael ei gefnogi a'i annog i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i gynnig cyfleoedd i gyflwyno dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion i rieni, gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned. Bydd hyn yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hybu a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol trwy weithredu'r Siarter Iaith Gymraeg/Campws Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn partneriaeth â'r Consortiwm. Mae'r Siarter Iaith wedi'i gweithredu mewn ysgolion

ddefnyddio'r cyfleusterau i gyflwyno gwersi Cymraeg i Oedolion yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen, bydd hyn yn annog rhieni a gwarcheidwaid i ystyried ymgymryd â gwersi Cymraeg. Byddai'r mathau yma o wersi yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo ledled y gymuned ac ysgolion cyfagos i annog rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach i gymryd rhan.

Mae presenoldeb da yn y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol i annog ysgolion i gynnig eu cyfleusterau i gyflwyno sesiynau Cymraeg i Oedolion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae is-grŵp Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi ffocws effeithiol ar yr heriau a wynebir o ran y gweithlu mewn ysgolion. Mae'r grŵp yn

marchnata a hyrwyddo'r dosbarthiadau yn cael eu gweithredu trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

- Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn parhau i gael ei gefnogi gyda dysgu a rhwydweithio proffesiynol parhaus, gan hwyluso cyfleoedd i rannu arfer gorau.
- Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i ennill gwobrau Campws Cymraeg.
- Cydlynnydd CSCA y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i

		<p>cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. O fis Gorffennaf 2023, mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill y wobr efydd, 13 wedi ennill y wobr arian a 5 wedi ennill y wobr aur. Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill y wobr efydd ac 1 wedi derbyn y wobr arian. Mae Campws Cymraeg wedi'i roi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 40 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd, 10 wedi ennill y wobr arian a 2 wedi ennill y wobr aur. Mae cyfanswm o 5 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd.</p> <p>Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, dosbarthiadau cymorth dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter Iaith Gymraeg (Campws</p>	<p>cynnwys swyddogion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydweithio i roi strategaethau ar waith a fydd yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod gyda ni weithlu mewn ysgolion sy'n ddigonol o ran maint a gallu.</p> <p>Mae adroddiadau monitro a baratowyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru sydd ar hyn o bryd wedi sefydlu darpariaeth drochi yn y Gymraeg yn nodi deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr sydd wedi cael mynediad at y cymorth, gan eu paratoi i ddechrau dysgu yn yr ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg prif ffrwd.</p> <p>Rhennir data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith Gymraeg â'r Cyngor bob chwarter drwy Swyddog Iaith Gymraeg y Consortiwm.</p>	<p>datblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.</p>
--	--	---	---	--

Cymraeg) ar waith. Hyd yn hyn, mae 3 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Campws Cymraeg.

Wrth gyfrannu at y weledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â'r ymrwymadau a amlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, mae sicrhau gweithlu o faint a gallu digonol mewn ysgolion yn hanfodol. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn sydd â'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Nod Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr ar draws y sector

	<p>Ddim yn cytuno neu'n anghytuno</p>	<p>addysg. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion yn allweddol i sicrhau bod dysgwyr ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol i gefnogi dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob dysgwr ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022.</p> <p>Mae modd i ddisgyblion sy'n bodloni'r meini prawf gael mynediad at y gwasanaeth anghenion cymhleth peripatetig cyfrwng Cymraeg yn eu lleoliadau ysgol prif ffrwd ddewis aros yn eu lleoliad prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn hytrach na chael mynediad at y lleoliadau cyfrwng Cymraeg newydd oherwydd y cynnydd posibl mewn amser teithio. Mae 7% o ddisgyblion ag ADY eraill a nodwyd a oedd yn arfer mynychu lleoliadau prif ffrwd cyfrwng Cymraeg bellach yn mynychu lleoliadau arbenigol cyfrwng Saesneg. Bydd disgyblion nawr yn cael mwy o</p>	<p>Ar ôl adolygu data mewnol, nodwyd oherwydd diffyg darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg, bod 7% o gyfanswm y disgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol wedi mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenorol.</p>	
--	--	--	--	--

		opsiynau i gael mynediad at leoliadau arbenigol cyfrwng Cymraeg.	
<p>Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned</p> <p>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser</p>	Cadarnhaol	<p>Bellach mae gan y Gymraeg statws swyddogol a deddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Yr her yw ehangu'r cyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd trwy greu'r amodau cywir i ddysgwyr newydd o bob oed ddatblygu a defnyddio eu sgiliau o'r blynyddoedd cynnar, trwy bob cam o addysg orfodol a darpariaeth ôl-16, i gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg.</p> <p>Fel y soniwyd uchod, mae rhaglen Campws Cymraeg y Siarter Iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen drwy ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Er ei bod yn bosibl na fydd y cynigion ar gyfer ardal Cwm Cynon o'r Fwrdeistref Sirol a'r cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen/Ysgol</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae disgyblion ag ADY sylweddol yn cael cymorth arbenigol cyfrwng Saesneg oherwydd y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Dim ond o fudd i hyrwyddo'r Gymraeg y mae modd agor y Dosbarth Cynnal Dysgu yma.</p> <p>Mae'r galw am ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion wedi'i amlygu gan boblogrwydd y dosbarthiadau presennol sy'n cael eu cynnal, er enghraifft yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a bydd cyfleoedd o'r fath yng nghalon y gymuned, fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel.</p>
			<ul style="list-style-type: none"> • Bydd effaith sefydlu'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn cael ei werthuso a'r galw yn cael ei fonitro i sicrhau bod agor y dosbarthiadau yma'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Os yw'n gadarnhaol, bydd cyfleoedd i ddatblygu rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu fel hyn ledled y Fwrdeistref Sirol yn cael eu hystyried. Mae sicrhau cynhwysiant gyda disgyblion prif ffrwd yn egwyddor allweddol i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael cyfle cyfartal i ddysgu'r iaith a derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

		<p>Uwchradd y Ddraenen Wen yn hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol, mae'r newidiadau statudol i ddarpariaeth ADY yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cwricwlwm Newydd ar gyfer Cymru sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen Campws Cymraeg y Siarter Iaith Gymraeg yn yr ysgolion yma'n sicrhau rhagor o gyfleoedd i bob dysgwr ddefnyddio'r Gymraeg, a fydd yn ei dro yn cefnogi hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Bydd y cynnig i sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Cynradd yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn caniatáu i blant ifainc gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol gynhwysol newydd sbon, sydd wedi'i chwblhau i safon yr 21^{ain} Ganrif. Bydd sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol o oedran ifanc yn gwella cyfleoedd i ddisgyblion barhau i ddysgu trwy</p>	<p>Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau'r Celfyddydau a Diwylliant a'r Gwasanaethau Cerdd i gyd yn rhan o is-grŵp Deilliant 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar greu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, felly darperir gwybodaeth yn uniongyrchol. Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo nid yn unig yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, ond hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach sy'n cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o gynyddu'r defnydd o'r iaith, ac yn y pen draw nifer y siaradwyr Cymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd marchnata a hyrwyddo'r dosbarthiadau yn cael eu gweithredu trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. • Cefnogi pennaeth yr ysgol newydd i hybu defnydd cymunedol o'r cyfleusterau at ddiben cyflwyno ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda chefnogaeth sefydliadau Cymraeg megis Menter Iaith a'r Urdd i gynorthwyo gyda hyrwyddo'r Gymraeg.
--	--	--	--	---

		<p>gyfrwng y Gymraeg mewn dosbarth pwrpasol ochr yn ochr â'u cyfoedion sydd hefyd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn hytrach na thrwy addysgu peripatetig.</p> <p>O ganlyniad, byddwn ni'n gweithio gyda phennaeth yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen i ddarparu cyfleoedd i gynnig dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion i unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r iaith a chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn gwbl hygyrch yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig gydag ardaloedd cymunedol pwrpasol y mae modd i'r gymuned leol eu defnyddio'n ddiogel.</p> <p>Bydd y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi</p>		
--	--	--	--	--

		<p>strategaeth bum mlynedd sy'n amlinellu ei gamau gweithredu i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg.</p> <p>Mae Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022 – 2027) wedi'i hystyried er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, a hynny trwy wasanaethau'r Cyngor a thrwy'r gymuned a chreu amodau ffafriol. Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol a Gwasanaethau Cerdd Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg. Ymhlith y rhain, mae:</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg:</p>		
--	--	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu deunyddiau i'w darparu i staff ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg. - Archwilio dichonolrwydd gosod rhaglenni dysgu/cefnogi cyfrwng Cymraeg ar ddyfeisiau pob aelod o staff. <p>Gwasanaethau Ieuenctid:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnal teithiau i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. - Creu deunyddiau hyrwyddo i'w gosod mewn clybiau ieuenctid ledled Rhondda Cynon Taf. - Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd a Menter Iaith i ddatblygu Fforymau Ieuenctid Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd â'r coleg lleol. <p>Gwasanaethau Hamdden:</p>		
--	--	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> - Gweithio gyda'r Urdd i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog. - Gweithio gyda Menter Iaith i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg mewn sesiynau hamdden. <p>Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cydweithio gyda Gwasanaethau Ieuencid ar raglen o ddarpariaeth ledled lleoliadau diwylliannol a chymunedol i annog defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg mewn achlysuron cymunedol. <p>Gwasanaethau Cerdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i annog rhyngweithio â'r gwasanaethau cerdd ar gyfer disgyblion sy'n dangos unrhyw fath o ddawn 		
--	--	---	--	--

		<p>offerynnol. Cefnogi'r disgyblion yma a'u hannog i gymryd rhan yn yr Eisteddfod.</p> <p>Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau aliniad clir â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd. Mae'r ymrwymiad yma i hybu'r Gymraeg, cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ar draws ysgolion Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Addysg y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2022 – 2025.</p>		
--	--	--	--	--

Cam 2 – Asesu Effaith

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
<p style="text-align: center;">Cydymffurfio â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor e.e. cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith.</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Bydd y cynnig i agor 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn creu swyddi ADY cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2 aelod o staff addysgu a 2 aelod o staff nad ydyn nhw'n addysgu, gan gynyddu gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at ehangu'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.</p>	<p>Bydd trefniadau cytundebol yn sicrhau bod pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd pob gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion yma'n cael ei hanfon yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Bydd y swyddi newydd a gynhyrchir o ganlyniad i sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn helpu i gynyddu'r gweithlu sydd ar gael i gefnogi disgyblion ag ADY, sy'n darged allweddol yn ein CSGA, yn bennaf deilliant 7, sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r gweithlu sydd ar gael i addysgu Cymraeg fel pwnc a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod contractwyr yn effro i Safonau'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hynny. • Gweithio gyda'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i sicrhau bod aelodau newydd o staff wedi cael hyfforddiant digonol i ddarparu'r lefel o gymorth sydd ei angen drwy gyfrwng y Gymraeg.

			<p>phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae'r dyletswyddau a osodwyd arnom o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion ag ADY.</p>	
<p>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Bydd agor y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen yn cael effaith gadarnhaol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar hyn o bryd, mae 45 Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol, a does dim un Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd. Y Dosbarth Cynnal Dysgu yma fydd y cyntaf o'i fath yma yn Rhondda Cynon Taf. Bydd darparu cyfleoedd i ddysgwyr na fyddai modd iddyn nhw fanteisio ar y cyfleoedd yma</p>	<p>Mae'r Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'n cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Hwn fydd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg cyntaf yn y Fwrdeistref Sirol. Os bernir ei fod yn llwyddiannus, bydd carfan Cynhwysiant a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd marchnata a hyrwyddo'r dosbarthiadau yn cael eu gweithredu trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

yn flaenrol yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu'n rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor, sef rhaglen sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Diben y rhaglen yw sicrhau bod yna ysgolion da, fel bod gyda phob plentyn a pherson ifanc, ni waeth beth yw eu hangen dysgu, fynediad teg i addysg o safon dda trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cynnig yma yn ein helpu i gyflawni'r diben yma.

Bydd yr ysgol newydd yn ymgorffori cyfleusterau at ddefnydd cymunedol i gynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd ag unrhyw ddysgu ychwanegol i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mynediad y Cyngor yn archwilio opsiynau i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ag ADY gael mynediad at gyfleoedd cyfrwng Cymraeg.

Cam 3 – Gwella'r cynnig

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdany'n nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?	Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?		
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori statudol).	Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Mehefin a 14 Gorffennaf 2023. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad wedi'i goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Medi 2023.	Gwasanaeth Chynhwysiant	Mynediad	a
Disgyblion mewn ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu	<p>Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol a phrofiad fel disgyblion.</p> <p>Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.</p>	Gwasanaeth Chynhwysiant	Mynediad	a

Cam 4 – Adolygu

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Cymdeithasol-Economaidd, dylai'r holl gynigion sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Sylweddol gael eu cyflwyno i Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith i gyfeiriad e-bost – BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. [Darllenwch ein dogfen ganllaw](#) i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Sylweddol ai peidio, mae'n ofynnol i chi anfon yr asesiad hwn ymlaen i Wasanaethau Cymraeg yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddarau'r adrannau perthnasol isod:

Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogir disgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sylweddol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth Saesneg, ond mae angen eglurder ynghylch pam y defnyddir meini prawf cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith; • Gellid diwygio'r geiriad drwyddo draw i ysbrydoli ymagwedd ragweithiol. Er enghraifft, mae'n nodi y gallai'r ddarpariaeth Gymraeg gael ei hystyried os oes angen, ond y gallech roi'r ddarpariaeth yn ei lle, yn hytrach na phan ddaw'r angen i'r amlwg; • Mae cyfle i gynnwys cymhariaeth rhwng y cynnig a'r gwasanaeth oedd yn ei le yn flaenorol h.y. gallai adleoli gael effaith ar amser teithio a gallai effeithio ar ble maen nhw'n dewis dysgu; a • Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu 22 o leoliadau Saesneg newydd a 18 lleoliad Cymraeg newydd, sydd o ran demograffeg yr ardal, yn gadarnhaol ond pam nad yw'n ceisio cydraddoldeb llwyr? Cyfle i ddatgan fod yna 46 dosbarth Saesneg ac 1 dosbarth Cymraeg. 	<p>5 Medi 2023</p>	<p>Mae sylwadau wedi'u nodi a diwygiadau wedi'u gwneud:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r meini prawf sy'n seiliedig ar ddifrifoldeb a chymhlethdod disgyblion sydd wedi'u hadnabod ag ADY ac yn niwtral o ran iaith. • Mae Cod ADY 2021 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddatblygu darpariaeth ADY ddwyieithog dros amser. Mae Adran 3.2 y Cod yn datgan mai un o'r egwyddorion sydd wrth wraidd y system ADY yw system ddwyieithog lle mae pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i ddarparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifainc sydd angen y gefnogaeth honno, ac mae'r gallu ar gael i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg gyda threigl amser • Mae niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg wedi'u diweddarau

		<ul style="list-style-type: none"> Mae Cod ADY 2021 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddatblygu darpariaeth ADY ddwyieithog dros amser. Mae Adran 3.2 y Cod yn datgan mai un o'r egwyddorion sydd wrth wraidd y system ADY yw system ddwyieithog lle mae pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i ddarparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifainc sydd angen y gefnogaeth honno, ac mae'r gallu ar gael i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg gyda threigl amser
Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu
Gweler uchod	5 Medi 2023	
Sylwadau'r Adran Ymgynghori	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod proses ymgynghori'r Dosbarth Cynnal Dysgu ynghylch yr asesiad yma	5 Mehefin – 14 Gorffennaf	

Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?

Bydd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r cynnig trwy gydol y cyfnod ymgynghori a gweithredu.

Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cam gweithredu a bydd hyn yn bwydo i mewn i brosiectau yn y dyfodol fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol.

Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig

Nodwch grynodedeb o'r asesiad effaith isod. Dylai'r crynodeb hwn gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau Cymraeg yn rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor / y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau cadarnhaol yn unig heb unrhyw effeithiau negyddol na niwtral ar y Gymraeg.

- Mae'r effaith ar ddisgyblion Cyfnod Cynradd cyfrwng Cymraeg ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol yn hynod gadarnhaol gan y byddan nhw'n cael y budd llawn o gael eu haddysgu mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â'u cyfoedion prif ffrwd trwy fodel cynhwysol, a gynhelir gan ysgol brif ffrwd.
- Bydd y cynnig yn ceisio creu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg arbenigol, yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) i ddatblygu system Anghenion Dysgu Ychwanegol ddwyieithog. Mae hefyd yn anelu at helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Mae disgwyl y bydd disgyblion ym mhob Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael cyfleoedd cynhwysiant prif ffrwd. Mae'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn rhan annatod o ethos yr ysgolion a'r teuluoedd ac mae'r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal gyda chyfoedion prif ffrwd. Bydd datblygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu wedi'u lleoli mewn amgylcheddau addysgol cwbl hygrych ac o ansawdd uchel sydd wedi elwa o foderneiddio a buddsoddiad sylweddol ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

- Mae'r cynigion hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg oherwydd y cynnydd arfaethedig mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistaidd.

Cam 7 – Cymeradwyo			
Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith ar y Gymraeg	Lisa Carter	Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:	Gaynor Davies
Swydd	Cydlynnydd Materion Cynhwysiant	Rydw i'n argymhell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)	Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau
			Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu
			Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg
Llofnod		Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth	
Dyddiad		Dyddiad	